



Department  
for Environment  
Food & Rural Affairs



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Mynd i'r afael â rhywogaethau goresgynnol estron

## Trefn orfodi newydd

Ionawr 2018

© Hawlfraint y Goron 2018

Cewch aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth fersiwn 3. I weld y drwydded hon, ewch i <https://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence-cymraeg/version/3/> neu e-bostiwch [PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk)

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn [www.gov.uk/government/publications](http://www.gov.uk/government/publications)

Dylai unrhyw ymholiad ynghylch y cyhoeddiad hwn gael ei anfon atom yn

[consultation.coordinator@defra.gsi.gov.uk](mailto:consultation.coordinator@defra.gsi.gov.uk)

[www.gov.uk/defra](http://www.gov.uk/defra)

## Cynnwys

Cyflwyniad.....	4
Gadael yr UE.....	4
Cyfyngiadau .....	5
Trwyddedau.....	5
Rheoleiddio amgylcheddol .....	6
Trefn orfodi arfaethedig .....	6
Cyngor ac arweiniad.....	7
Llythyrau rhybuddio .....	7
Cosbau sifil.....	8
Troseddau .....	9
Penderfynu pryd i ddefnyddio achosion sifil neu droseddol.....	10
Pwerau mynediad.....	10
Atodiad A – Rhestr o rywogaethau sy'n peri pryder i'r Undeb .....	11
Atodiad B – Rhestr o gyfyngiadau .....	13
Atodiad C – Model cosbau sifil arfaethedig .....	15

## Cyflwyniad

1. Anifeiliaid a phlanhigion a gyflwynir yn ddamweiniol neu'n fwriadol i amgylchedd naturiol lle na chânt eu gweld fel arfer yw rhywogaethau goresgynnol estron, neu rywogaethau estron goresgynnol fel y'u gelwir yn aml ledled Ewrop, a gallant gyflwyno canlyniadau negyddol difrifol i'w hamgylchedd newydd. Maent yn fygythiad mawr i blanhigion ac anifeiliaid brodorol yn Ewrop, ac yn costio oddeutu £1.7 biliwn y flwyddyn i economi Prydain<sup>1</sup>.
2. Diben yr ymgynghoriad hwn yw cael barn pobl ar drefn orfodi arfaethedig ar gyfer Cymru a Lloegr y mae angen ei rhoi ar waith er mwyn gorfodi'r cyfyngiadau sydd wedi'u cynnwys yn Rheoliad Rhywogaethau Goresgynnol Estron yr UE ((UE) 1143/2014)<sup>2</sup> ("y Rheoliad"). Rydym yn bwriadu gweithredu'r drefn orfodi hon trwy offeryn statudol yn ddiweddarach eleni.
3. Daeth y Rheoliad i rym ar 1 Ionawr 2015. Nod y Rheoliad yw atal neu reoli cyflwyniad, neu ledaeniad, rhywogaethau goresgynnol estron ledled yr Undeb Ewropeaidd. Mae'n darparu ar gyfer cyfres o fesurau i'w cymryd mewn cyswllt â rhywogaethau goresgynnol estron sydd wedi'u cynnwys ar restr o rywogaethau sy'n peri pryder i'r Undeb. Rhagwelir tri math penodol o fesurau, sy'n dilyn dull hierarchaidd a gytunwyd yn rhyngwladol<sup>3</sup> i ymdrin â rhywogaethau goresgynnol estron:
  - **Atal:** nifer o fesurau cadarn sydd wedi'u hanelu at atal rhywogaethau sy'n peri pryder i'r Undeb rhag dod i mewn i'r UE, naill ai'n fwriadol neu'n anfwriadol;
  - **Canfod yn gynnar a difa'n gyflym:** Rhaid i aelod-wladwriaethau roi system oruchwylio ar waith i ganfod presenoldeb rhywogaethau sy'n peri pryder i'r Undeb mor gynnar â phosibl a chymryd camau difa cyflym i'w hatal rhag sefydlu;
  - **Rheolaeth:** mae rhai rhywogaethau sy'n peri pryder i'r Undeb eisoes wedi'u sefydlu'n dda mewn aelod-wladwriaethau arbennig, ac mae angen cymryd camau rheoli ar y cyd i sicrhau nad ydynt yn lledaenu ymhellach ac i leihau'r niwed y maent yn ei achosi.
4. Mae'r rhestr gyfredol o'r 49 o rywogaethau y mae'r Rheoliad yn berthnasol iddynt wedi'i hatodi yn Atodiad A.

## Gadael yr UE

5. Ar 23 Mehefin 2016, cynhaliwyd y refferendwm ynghylch gadael yr UE a phleidleisiodd pobl y Deyrnas Unedig dros adael yr Undeb Ewropeaidd. Hyd nes y cwblheir y

---

<sup>1</sup> The Economic Cost of Invasive Non-native Species on Great Britain (2010), CABI

<sup>2</sup> Rheoliad (UE) Rhif 1143/2014 ar atal a rheoli cyflwyniad a lledaeniad rhywogaethau goresgynnol estron

<sup>3</sup> Confensiwn ar Amrywiaeth Biolegol – Penderfyniad VI/23

trafodaethau ymadael, bydd y DU yn parhau i fod yn aelod llawn o'r Undeb Ewropeaidd a bydd holl hawliau a rhwymedigaethau bod yn aelod o'r UE yn dal i fod mewn grym.

6. Yn ystod y cyfnod hwn bydd y Llywodraeth yn parhau i drafod, gweithredu a chymhwyso deddfwriaeth yr UE. Bydd canlyniad y trafodaethau hyn yn pennu pa drefniadau fydd yn berthnasol o ran deddfwriaeth yr UE yn y dyfodol unwaith y bydd y DU wedi gadael yr UE.

## Cyfyngiadau

7. Mae'r cyfyngiadau a amlinellir yn Erthygl 7 o'r Rheoliad yn gwahardd gwneud y canlynol yn fwriadol:
  - (a) mewnfario;
  - (b) cadw;
  - (c) bridio;
  - (d) cludo;
  - (e) gwerthu;
  - (f) defnyddio neu gyfnewid;
  - (g) caniatáu i atgenhedlu, tyfu neu drin; neu
  - (h) ryddhau i'r amgylchedd

unrhyw sbesimenau byw o'r rhywogaethau ar restr yr Undeb.

8. Gellir cael rhagor o wybodaeth am y cyfyngiadau hyn, a'r hyn y gallent ei olygu i chi, ar [wefan](#) Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr.
9. Bydd Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig yn rhoi mesurau rheoli ar waith ar gyfer yr holl rywogaethau sy'n peri pryder i'r Undeb sydd eisoes wedi'u gwasgaru'n helaeth yn y Deyrnas Unedig er mwyn lleihau eu heffeithiau. Er enghraifft, mae Defra a'r Gweinyddiaethau Datganoledig yn llofnodwyr Cytundeb Gwiwerod y DU, sy'n bwriadu hyrwyddo dull cydgysylltiedig tuag at reoli gwiwerod llwyd a diogelu dyfodol ein gwiwerod coch a'n coetiroedd. Byddwn yn ymgynghori ynghylch cynlluniau rheoli sy'n ymwneud â rhywogaethau penodol a fydd yn nodi'r mesurau hyn maes o law. Bydd y rhain ar gael ar [wefan](#) Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr.

## Trwyddedau

10. Mewn rhai amgylchiadau cyfyngedig, gall sefydliadau wneud cais am drwydded i alluogi iddynt wyro o'r cyfyngiadau a nodwyd o dan y Rheoliad. Mae'r amgylchiadau hyn yn cynnwys, at ddibenion gwaith ymchwil, cadw a chreu'n wyddonol gynhyrchion meddygol oddi ar y safle neu, mewn achosion eithriadol, am resymau o fudd cymhellol i'r cyhoedd, a allai gynnwys rhesymau cymdeithasol neu economaidd. Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) sy'n gweinyddu'r cynllun trwyddedu yn y DU.
11. Fel rhan o'r drefn orfodi, bydd cosbau'n cael eu cyflwyno yng Nghymru a Lloegr mewn perthynas â:

- Gwneud datganiad anwir er mwyn cael trwydded;
- Ffugio neu newid trwydded; neu ddefnyddio sbesimen at ddiben nad yw'n unol â'r drwydded;
- Mynd yn groes i amod neu ofyniad trwydded yn fwriadol;
- Rhwystro swyddog gorfodi awdurdodedig yn fwriadol;
- Ffugio bod yn swyddog gorfodi, gyda'r nod o dwyllo;
- Ceisio cyflawni unrhyw un o'r troseddau uchod.
- Meddu ar unrhyw beth sydd â'r gallu i gael ei ddefnyddio i gyflawni unrhyw un o'r troseddau uchod.

Yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, bydd y Gweinyddiaethau Datganoledig yn cyflwyno cosbau trwy eu deddfwriaeth fewnol briodol eu hunain.

## Rheoleiddio amgylcheddol

12. Dilynir dwy egwyddor sylfaenol mewn rheoleiddio amgylcheddol: dylid atal neu leihau niwed, a bydd y "llygrwr yn talu" am y niwed y bydd yn ei achosi. O dan yr egwyddor "llygrwr yn talu", dylai'r costau amgylcheddol a chymdeithasol o fethu ag atal neu reoli'r risgiau i'r amgylchedd gael eu hysgwyddo gan y rhai hynny sy'n gyfrifol amdanynt. Pan fydd gweithredwyr yn methu â chydymffurfio â'r gyfraith, mae'n bosibl y bydd angen gorfodi er mwyn cyflawni'r nod hwn.

13. Yn fwy penodol, prif ddibenion gorfodi amgylcheddol yw:

- atal risg neu niwed amgylcheddol parhaus;
- sicrhau gwelliannau a fydd yn arwain at gydymffurfiaeth;
- sicrhau bod difrod amgylcheddol yn cael ei unioni;
- tynnu unrhyw fudd ariannol a ddaw yn sgil diffyg cydymffurfio;
- talu iawndal i gymunedau a effeithiwyd yn niweidiol;
- cosbi ymddygiad sy'n tanseilio'r rheoleiddio'n ddifrifol ac sydd, ar ei waethaf, yn ddiffyg cydymffurfio bwriadol, diofal neu esgeulus.

14. Os bydd gorfodi'n cyflawni'r dibenion hyn, bydd yn helpu i sicrhau canlyniadau pwysig:

- rhwystro diffyg cydymffurfio â'r gofynion amgylcheddol yn y dyfodol; ac
- atal niwed amgylcheddol rhag digwydd yn y lle cyntaf.

15. Dyluniwyd y cynigion a nodir isod i sicrhau bod camau gorfodi a sancsiynau amgylcheddol cymesurol yn effeithiol o ran dilyn yr egwyddorion a'r dibenion hyn.

## Trefn orfodi arfaethedig

16. Mae'r Rheoliad yn gofyn i aelod-wladwriaethau gyflwyno cosbau mewn deddfwriaeth ddomestig ar gyfer unrhyw gyfyngiadau a dorrir o fewn iddi. Gofyniad y Rheoliad yw bod rhaid i gosbau fod yn effeithiol, yn gymesurol ac yn wrthwynebol, a gallent gynnwys, er enghraifft, dirwyon, dal y rhywogaethau ac ataliad dros dro neu ddiddymiad o drwydded ar unwaith.

17. Mae amrywiaeth o ddulliau gorfodi ar gael i reoleiddwyr amgylcheddol er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau i'r amgylchedd ac i bobl. Mae'r drefn orfodi arfaethedig a nodir yn y ddogfen hon yn amrywio o ddarparu cyngor a chyflwyno llythyrau rhybuddio i gosbau sifil amrywiol a throseddau sydd eisoes ar waith o dan ddeddfwriaeth gyfredol. Rydym hefyd yn ceisio eich safbwyntiau o ran p'un a ddylid creu troseddau newydd i orfodi cyfyngiadau nad ydynt yn cael eu hadlewyrchu mewn deddfwriaeth sydd ohoni. Caiff unrhyw gam gweithredu uwchlaw darparu cyngor neu lythyr rhybuddio ei ystyried yn sancsiwn sifil neu'n sancsiwn troseddol.
18. Mae Atodiad B yn nodi'r cyfyngiadau yn y Rheoliad a'r cosbau troseddol a/neu sifil arfaethedig sydd ar gael i fynd i'r afael â phob toriad. Rydym yn ystyried y dylai Cyfoeth Naturiol Cymru, Natural England, yr heddlu a Gwasanaeth Erynn y Goron fod yn gyfrifol am orfodi'r drefn arfaethedig. Mae rhagor o wybodaeth am y drefn arfaethedig wedi'i nodi isod.
19. Efallai y bydd rhai o'r rhywogaethau a restrir o dan y Rheoliad eisoes yn ddarostyngedig i fesurau rheoli trwy fframweithiau rheoleiddio sydd ohoni. Er enghraifft, mae Deddf Mewnforio Pysgod Byw (Cymru a Lloegr) 1980 (pennod 27) yn rheoleiddio'r broses o fewnforio, cadw a rhyddhau pysgod estron. Byddwn yn cynnal dadansoddiad pellach o oblygiadau'r strategaeth orfodi hon ar gyfer fframweithiau rheoleiddio sydd ohoni. Byddem yn croesawu unrhyw safbwyntiau a allai fod gennych mewn perthynas â'r pwynt hwn.

**C1. Pan fo rhywogaeth sy'n peri pryder i'r Undeb eisoes yn ddarostyngedig i fesurau rheoli trwy fframwaith sydd ohoni, a ydych yn ystyried y dylai barhau i gael ei rheoli dan y fframwaith hwnnw ar gyfer cyfyngiadau sy'n cael eu cynnwys yn y Rheoliad? Eglurwch eich rhesymau.**

## Cyngor ac arweiniad

20. Dylai'r rheoleiddiwr gynnig cyngor ac arweiniad i gynorthwyo pobl i ddychwelyd i gydymffurfiaeth ar unrhyw adeg. Fel arfer, bydd cyngor ac arweiniad yn cael eu darparu ar ôl torri cyfyngiad yn y Rheoliad, neu lle mae toriad yn debygol o ddigwydd, a dylid cynnig hyn heb ragfarn i unrhyw ymateb gorfodi arall y gallai fod ei angen. Yn y mwyafrif o achosion, hwn fydd y cam gweithredu cyntaf i geisio cael unigolyn neu fusnes i gydymffurfio â'r Rheoliad.

## Llythyrau rhybuddio

21. Hysbysiad ysgrifenedig yw llythyr rhybuddio pan fydd rheoleiddiwr yn credu bod trosedd neu doriad o gyfyngiad yn y Rheoliad wedi digwydd. Bydd yn cael ei gofnodi a gallai, mewn achos pellach o ddiffyg cydymffurfio, ddylanwadu ar ddewis sancsiwn dilynol.
22. Dylai'r rheoleiddiwr ystyried a yw'n briodol i gyflwyno llythyr rhybuddio cyn cychwyn achos troseddol neu sifil.

## Cosbau sifil

23. Mae argaeledd cosbau sifil yn caniatáu i reoleiddwyr wahaniaethu'n fwy effeithiol rhwng y rhai hynny sy'n ymateb yn dda ar y cyfan i gydymffurfiaeth a'r rhai hynny sy'n dueddol o ddiystyru'r gyfraith. Maent yn galluogi rheoleiddwyr i ymateb yn hyblyg i amgylchiadau pob achos.
24. Gall cosbau sifil gael eu cyflwyno i unrhyw berson sy'n cyflawni toriad perthnasol o'r cyfyngiadau yn y Rheoliad, gan gynnwys, er enghraifft: busnesau, tiffeddianwyr, unigolion, sefydliadau cyhoeddus a sefydliadau anllywodraethol.
25. Rydym yn cynnig y dylai cosbau sifil fod ar gael ar gyfer pob toriad o'r cyfyngiadau yn y Rheoliad.
26. Dyma'r cosbau penodol a gynigir:
- **Cosb ariannol benodedig:** Gofyniad i dalu cosb ariannol sy'n swm penodedig. Y lefelau arfaethedig ar gyfer cosbau ariannol penodedig yw £1,000 i unigolion a £3,000 i fusnesau;
  - **Cosb ariannol amrywiadwy:** Gofyniad i dalu cosb ariannol sy'n swm a bennir gan y rheoleiddiwr er mwyn adlewyrchu amgylchiadau'r drosedd;
  - **Hysbysiad cydymffurfio:** Gofyniad i gymryd camau penodol o fewn cyfnod a nodir er mwyn sicrhau nad yw'r drosedd yn parhau neu'n digwydd eto;
  - **Hysbysiad adfer:** Gofyniad i gymryd camau penodol o fewn cyfnod a nodir er mwyn sicrhau bod y sefyllfa'n cael ei hadfer, cyn belled â phosibl, i'r hyn y byddai wedi bod pe na bai'r toriad wedi digwydd;
  - **Ymgymeriadau gorfodi:** Mae'r rhain yn galluogi person, y mae rheoleiddiwr yn amau'n rhesymol ei fod wedi cyflawni trosedd, i gytuno ar ymgymeriad gyda rheoleiddiwr i gymryd un cam unioni neu fwy sydd wedi'i nodi yn yr ymgymeriad;
  - **Ymgymeriadau trydydd parti:** Mae'r rhain yn galluogi person sydd wedi cael hysbysiad gan reoleiddiwr o fwriad i osod cosb ariannol amrywiadwy, er enghraifft, i ymroi i gymryd camau er budd trydydd parti a effeithiwyd gan y diffyg cydymffurfio;
  - **Hysbysiad atal:** Gofyniad i berson roi'r gorau i wneud gweithgaredd a ddisgrifiwyd yn yr hysbysiad hyd oni y bydd wedi cymryd camau i ddychwelyd i gydymffurfiaeth.
27. Rydym hefyd yn cynnig y dylai'r safon profi ar gyfer cosbau ariannol penodedig, cosbau ariannol amrywiadwy, hysbysiadau cydymffurfio a hysbysiadau adfer gael ei phennu yn ôl y cydbwysedd tebygolrwydd.
28. Mae manylion y drefn sancsiynau sifil arfaethedig wedi'u nodi yn Atodiad C.

**C2. A ydych yn fodlon ar y drefn cosbau sifil arfaethedig, gan gynnwys y lefelau ar gyfer cosbau ariannol penodedig a safonau profi? Pa newidiadau, os unrhyw rai, y byddech yn eu cynnig? Eglurwch eich rhesymau.**



## Troseddau

29. Yng Nghymru a Lloegr, rydym yn cynnig defnyddio dwy drosedd ddomestig sydd ohoni, sy'n cynnwys rhyddhau i'r amgylchedd a gwerthu, er mwyn rhoi dewis arall i reoleiddwyr orfodi'r toriadau mwyaf difrifol o'r Rheoliad. Gellid defnyddio'r pwerau hyn, er enghraifft, i fynd i'r afael ag achosion bwriadol o ryddhau rhywogaethau o bryder arbennig ym Mhrydain Fawr, neu achosion lle mae troseddwr yn parhau i werthu rhywogaeth er gwaethaf rhybuddion neu gosbau blaenorol.

30. Dyma'r troseddau presennol hyn:

- **Rhyddhau i'r amgylchedd** – O dan adran 14 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, mae'n drosedd i ryddhau rhywogaeth wyllt o anifail nad yw'n preswyllo'n wyllt fel arfer ym Mhrydain Fawr neu rywogaeth sydd wedi'i rhestru yn Atodlen 9 o Ddeddf 1981. Mae hefyd yn drosedd i blannu planhigyn a restrir yn Atodlen 9 neu achosi i blanhigyn o'r fath dyfu'n wyllt;

**Gwaharddiad ar werthu** – O dan adran 14ZA o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, mae'n drosedd i werthu, neu gynnig gwerthu, anifail byw sy'n rhywogaeth nad yw'n preswyllo fel arfer ym Mhrydain Fawr, yn y gwyllt nac fel ymwelydd rheolaidd; neu sbesimen o anifail neu blanhigyn sy'n rhywogaeth a restrir o dan Atodlen 9; a lle y mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi gwneud gorchymyn i'w wahardd rhag cael ei werthu.

Mae unigolyn sy'n euog o drosedd o dan adran 14 neu 14ZA o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 yn atebol:

- ar gollfarn ddiannod i gael ei garcharu am gyfnod nad yw'n hwy na chwe mis neu ddirwy nad yw'n fwy na'r uchafswm statudol, neu'r ddau
- ar ôl euogfarn ar gyhuddiad i gael ei garcharu am gyfnod nad yw'n hwy na dwy flynedd neu ddirwy, neu'r ddau.

31. Rydym yn cynnig diwygio Atodlen 9 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 yng Nghymru a Lloegr, i gynnwys cyfeiriad at rywogaethau sy'n peri pryder i'r Undeb nad ydynt eisoes wedi'u cynnwys ynddi. Rydym hefyd yn cynnig gwneud gwaharddiad newydd ar orchmynion gwerthu, sy'n cynnwys pob rhywogaeth sy'n peri pryder i'r Undeb o dan adran 14ZA o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.

32. Darperir ar gyfer cosbau o ran mewnfario rhywogaethau sy'n peri pryder i'r Undeb gan Ddeddf Rheoli Tollau Tramor a Chartref 1979, sy'n ei gwneud yn drosedd o dan adrannau 50, 68 a 170 fewnfario unrhyw beth sy'n groes i unrhyw waharddiad neu gyfyngiad sydd ar waith ar y pryd. Mae hyn yn berthnasol yn awtomatig i'r rhywogaethau sy'n peri pryder i'r Undeb sydd wedi'u rhestru o dan y Rheoliad.

33. Mae Llywodraeth y DU yn ymrwymedig i atal troseddau newydd afraid rhag mynd ar led ac i sicrhau bod unrhyw droseddau newydd yn addas i'r diben. Wrth greu trosedd newydd, rhaid iddi fod yn gymesur ac angenrheidiol i gyflawni'r amcan cyffredinol.

34. Yn ogystal â defnyddio cosbau sifil a throseddau domestig sydd ohoni, hoffem ni gael eich safbwyntiau o ran p'un a yw creu troseddau newydd i gynnwys y cyfyngiadau sy'n weddill yn y Rheoliad hefyd yn gymesur ac angenrheidiol. Maent fel a ganlyn:

- a. cadw;
- b. bridio;
- c. cludo;
- d. defnyddio neu gyfnewid; a
- e. chaniatáu i atgenhedlu, tyfu neu drin.

**C3. A ydych yn ystyried bod toriadau o'r cyfyngiadau hyn yn cyfiawnhau creu troseddau newydd neu a ddylem ni ddibynnu ar gosbau sifil a throseddau sydd ohoni? Eglurwch y rhesymau dros eich ateb.**

35. Rydym hefyd am gael eich safbwyntiau o ran p'un a yw creu troseddau newydd ar gyfer toriadau mewn perthynas â'r cynllun trwyddedu, sydd wedi'u hamlinellu ym mharagraff 1 uchod, yn gymesur ac angenrheidiol.

**C4. A ydych yn ystyried bod toriadau mewn perthynas â'r cynllun trwyddedu'n cyfiawnhau creu troseddau newydd neu a ddylem ni ddibynnu'n unig ar gosbau sifil? Eglurwch y rhesymau dros eich ateb.**

36. Os caiff troseddau newydd eu creu, rydym yn cynnig y bydd lefel y cosbau ar yr un lefel â'r cosbau hynny ar gyfer troseddau o dan adran 14 neu 14ZA o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, sydd wedi'i hamlinellu ym mharagraff 30 uchod.

**C5. Os caiff troseddau newydd eu creu, a ydych yn credu y dylai'r cosbau fod ar yr un lefel â'r cosbau hynny ar gyfer troseddau o dan adran 14 neu 14ZA o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981? Eglurwch y rhesymau dros eich ateb.**

## Penderfynu pryd i ddefnyddio achosion sifil neu droseddol

37. Pan fo rheoleiddwyr yn bwriadu canlyn achosion gorfodi, dylent ystyried defnyddio cosbau sifil fel mater o drefn yn hytrach na throseddau. Dylai gorfodi trwy achosion troseddol gael ei gadw ar gyfer y toriadau mwyaf difrifol o'r Rheoliad yn unig neu ar gyfer achosion lle mae cosbau troseddol wedi cael eu gweithredu ond mae troseddu'n parhau.

## Pwerau mynediad

38. Er mwyn gorfodi'r drefn hon yn effeithiol, bydd angen pwerau mynediad newydd ar reoleiddwyr a phwerau i chwilio a chymryd samplau er mwyn ymchwilio i'r canlynol:

- a. a oes rhywogaeth a fewnforiwyd neu a gafwyd yn anghyfreithlon ar y safle;
- b. a oes cyfyngiad o dan y Rheoliad wedi'i dorri neu'n cael ei dorri a gellir dod o hyd i dystiolaeth o'r toriad ar unrhyw safle, neu
- c. a gydymffurfiwyd ag amod o drwydded neu a gydymffurfir ag amod o'r drwydded.

## Atodiad A – Rhestr o rywogaethau sy'n peri pryder i'r Undeb

Planhigion		Anifeiliaid	
Chwyn danheddog	<i>Alternanthera philoxeroides</i>	Cysgadur Amur	<i>Perccottus glenii</i>
Pidyn-y-gog Americanaidd	<i>Lysichiton americanus</i>	Cacynen Asiaidd	<i>Vespa velutina</i>
Costog Bigog Asiaidd	<i>Persicaria perfoliata</i> / <i>Polygonum perfoliatum</i>	Gwiwer dorgoch	<i>Sciurus niger</i>
Myrddail llydan	<i>Myriophyllum heterophyllum</i>	Cranc manegog Tsieina	<i>Eriocheir sinensis</i>
Rhiwbob Chile	<i>Gunnera tinctoria</i>	Coipw	<i>Myocastor coypus</i>
Glaswellt coch y ffynnon	<i>Pennisetum setaceum</i>	Gŵydd yr Aifft	<i>Alopochen aegyptiacus</i>
Ffugalaw crych	<i>Lagarosiphon major</i>	Gwiwer lwyd	<i>Sciurus carolinensis</i>
Llwyn creulys	<i>Baccharis halimifolia</i>	Brân tŷ o'r India	<i>Corvus splendens</i>
Dail-ceiniog arnofiol	<i>Hydrocotyle ranunculoides</i>	Cimwch afon brith	<i>Procambarus fallax f. virginialis.</i>
Briallen arnofiol	<i>Ludwigia peploides</i>	Carw mwntjac	<i>Muntingia reevesi</i>
Efwr enfawr	<i>Hercleum mantegazzianum</i>	Mwsglygoden	<i>Ondatra zibethicus</i>
Tarian-y-dŵr	<i>Cabomba caroliniana</i>	Llyffant mawr Gogledd America	<i>Lithobates (Rana) catesbeianus</i>
Ffromlys chwarennog	<i>Impatiens glandulifera</i>	Gwiwer bolgoch y coed	<i>Callosciurus erythraeus</i>

Glaswellt hirgoes o Siapan	<i>Microstegium vimineum</i>	Racŵn	<i>Procyon lotor</i>
Clymog Kudzu	<i>Pueraria lobata</i>	Ci racŵn <sup>4</sup>	<i>Nyctereutes procyonoides</i>
Llaethlys	<i>Asclepias syriaca</i>	Terapin clustiau coch <sup>5</sup>	<i>Trachemys scripta</i>
Ffugalaw Nuttall	<i>Elodea nuttallii</i>	Cimwch coch y gors	<i>Procambarus clarkia</i>
Y bluen parot	<i>Myriophyllum aquaticum</i>	Hwyaden goch	<i>Oxyura jamaicensis</i>
Efwr Persia	<i>Heracleum persicum</i>	Garan yr Aifft	<i>Threskiornis aethiopicus</i>
Efwr Sosnowski	<i>Heracleum sosnowskyi</i>	Gwiwer resog Siberia	<i>Tamias sibiricus</i>
Hiasinth y dŵr	<i>Eichhornia crassipes</i>	Cimwch afon America	<i>Pacifastacus leniusculus</i>
Briallen y dŵr	<i>Ludwigia grandiflora</i>	Mongŵs bach Asia	<i>Herpestes javanicus</i>
Chwyn partheniwm	<i>Parthenium hysterophorus</i>	Coati De America	<i>Nasua nasua</i>

<sup>4</sup> Nid yw'r cyfyngiadau'n dod i rym tan 2 Chwefror 2019

<sup>5</sup> Mae hyn yn cynnwys yr holl is-rywogaethau o *Trachemys scripta*, e.e. terapin bolfelen, terapin clustiau coch, terapin Cumberland, terapin a'r terapin cyffredin

		Cimwch afon rhesog	<i>Orconectes limosus</i>
		Llyfrothen uwchsafn	<i>Pseudorasbora parva</i>
		Cimwch afon y Gogledd	<i>Orconectes virilis</i>

## Atodiad B – Rhestr o gyfyngiadau

	sifil	troseddol	gorfodi deddfwriaeth
<b>Cyfyngiadau o dan Erthygl 7 o Reoliad Rhywogaethau Goresgynnol Estron yr UE</b>			
Mewnforio	✓	✓	Deddf Rheoli Tollau Tramor a Chartref 1979
Cadw	✓	?	Offeryn statudol yn dod i rym yn ystod 2018
Bridio	✓	?	Offeryn statudol yn dod i rym yn ystod 2018
Trafnidiaeth	✓	?	Offeryn statudol yn dod i rym yn ystod 2018
Gwerthu	✓	✓	Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981
Defnyddio neu gyfnewid	✓	?	Offeryn statudol yn dod i rym yn ystod 2018
Trwydded i atgenhedlu	✓	?	Offeryn statudol yn dod i rym yn ystod 2018
Rhyddhau i'r amgylchedd	✓	✓	Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981
<b>Cyfyngiadau amrywiol o dan y Rheoliad trwyddedu a gorfodi arfaethedig</b>			
Gwneud datganiad anwir er mwyn cael trwydded.	✓	?	Offeryn statudol yn dod i rym yn ystod 2018

Anwiro neu newid trwydded; neu ddefnyddio sbesimen at ddiben nad yw'n unol â'r drwydded.	✓	?	Offeryn statudol yn dod i rym yn ystod 2018
Mynd yn groes i amod neu ofyniad trwydded yn fwriadol.	✓	?	Offeryn statudol yn dod i rym yn ystod 2018
Rhwystro swyddog gorfodi awdurdodedig priodol yn fwriadol.	✓	?	Offeryn statudol yn dod i rym yn ystod 2018
Ffugio bod yn swyddog gorfodi, gyda'r nod o dwyllo.	✓	?	Offeryn statudol yn dod i rym yn ystod 2018
Ceisio cyflawni unrhyw un o'r troseddau uchod.	✓	?	Offeryn statudol yn dod i rym yn ystod 2018
Prosesu unrhyw beth sydd â'r gallu i gael ei ddefnyddio i gyflawni unrhyw un o'r troseddau uchod.	✓	?	Offeryn statudol yn dod i rym yn ystod 2018

? – i'w bennu yn dilyn canlyniad yr ymarfer ymgynghori

Pan fydd corff corfforaethol yn euog o drosedd, gellir cael cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu berson tebyg yn euog o'r drosedd honno neu o dorri cyfyngiad yn y Rheoliad pan wnaethpwyd y weithred gyda'i ganiatâd neu gefnogaeth, neu drwy esgeulustod ar ei ran ef.

## Atodiad C – Model cosbau sifil arfaethedig

### Cosb Ariannol Benodedig

1. Gall y rheoleiddiwr gyflwyno cosb ariannol sefydlog pan fydd yn credu bod cyfyngiad yn y Rheoliad wedi'i dorri.
2. Dylai cosb ariannol benodedig gael ei chynnig ar gyfer troseddau technegol neu fân droseddau pan fydd cyngor ac arweiniad blaenorol wedi'u hanwybyddu, neu er mwyn cael gwared ag unrhyw fudd ariannol anghyfreithlon ffiniol.
3. Dylai'r gosb ariannol fod yn £1,000 i unigolion; a £3,000 i gorff corfforaethol.
4. Rhaid i'r rheoleiddiwr gyflwyno hysbysiad o fwriad, sy'n nodi ar ba sail y'i cyflwynir a swm y gosb arfaethedig. Gellir dileu'r gosb os telir 50% o'r gosb o fewn 28 diwrnod i gael yr hysbysiad o fwriad.
5. Ar ôl derbyn yr hysbysiad terfynol, byddai'r gosb ariannol hon yn cael ei lleihau o 50% pe bai'n cael ei thalu o fewn 28 diwrnod; neu ei chynyddu o 50% os na dderbynnir y taliad o fewn 56 o ddiwrnodau.

### Cosb Ariannol Amrywiadwy

6. Gall y rheoleiddiwr gyflwyno cosb ariannol amrywiadwy pan fydd yn credu bod cyfyngiad yn y Rheoliad wedi'i dorri.
7. Dylai cosb ariannol amrywiadwy gael ei defnyddio i gael gwared ag unrhyw fudd ariannol yn sgil diffyg cydymffurfio ac i rwystro troseddu yn y dyfodol. Fel arfer, caiff ei hystyried ar gyfer toriadau mwy difrifol.
8. Y gosb ariannol amrywiadwy fwyaf bosibl yw £250,000. Bydd yn cael ei chyfrifo trwy gymhwysu'r broses a amlinellir ym mholisi gorfodi'r rheoleiddiwr perthnasol.

### Hysbysiad cydymffurfio

9. Gall rheoleiddiwr gyflwyno hysbysiad cydymffurfio sy'n gofyn i berson gymryd camau penodol o fewn cyfnod a nodir er mwyn sicrhau nad yw'r cyfyngiad yn y Rheoliad yn parhau i gael ei dorri nac yn digwydd eto.
10. Dylid defnyddio hysbysiadau cydymffurfio pan fydd y toriad yn barhaus ei natur neu lle gallai'r amgylchiadau a achosodd y toriad barhau, gan beri risg y gallai'r toriad ddigwydd eto. Gellir cyfuno hysbysiadau cydymffurfio â hysbysiadau adfer, cosbau ariannol amrywiadwy a hysbysiadau atal yn ôl doethineb y rheoleiddiwr a phan fo'n briodol.

## Hysbysiad adfer

11. Gall rheoleiddiwr gyflwyno hysbysiad adfer sy'n gofyn i berson gymryd camau i adfer niwed a achoswyd gan ddiffyg cydymffurfio, fel bod y sefyllfa'n cael ei hadfer, cyn belled â phosibl, i'r hyn y byddai wedi bod pe na bai'r toriad wedi digwydd. Gellir cyfuno hysbysiadau adfer â hysbysiadau cydymffurfio, cosbau ariannol amrywiadwy a hysbysiadau atal yn ôl doethineb y rheoleiddiwr a phan fo'n briodol.

## Hysbysiad atal

12. Gall rheoleiddiwr, heb gyflwyno hysbysiad o fwriad, gyhoeddi hysbysiad atal sy'n gwahardd unigolyn rhag parhau â gweithgaredd sy'n achosi (neu'n debygol o achosi) niwed difrifol, a bod y gweithgaredd hwnnw'n ymwneud â (neu'n debygol o ymwneud â) thorri cyfyngiad yn y Rheoliad. Gall hefyd wahardd gweithgaredd sy'n debygol o gael ei wneud ac sy'n debygol o achosi niwed difrifol rhag parhau ar unwaith hyd oni y bydd camau penodol wedi'u cymryd. Gellir cyflwyno hysbysiad atal gydag unrhyw sancsiwn sifil arall, heblaw am gosb ariannol benodedig.

## Ymgymeriadau gorfodi

13. Gall rheoleiddiwr benderfynu derbyn ymgymeriad gorfodi gan berson i gymryd camau a fyddai'n gwneud iawn am y diffyg cydymffurfio a'r effeithiau a achoswyd trwy dorri unrhyw gyfyngiad yn y Rheoliad. Os bydd y rheoleiddiwr yn derbyn y cynnig, bydd yn gytundeb gwirfoddol rhwng y rheoleiddiwr a'r person a gyflwynodd y cynnig. Ni cheir cyflwyno unrhyw sancsiwn sifil arall os bydd y rheoleiddiwr yn derbyn yr ymgymeriad gorfodi, a bod yr ymgymeriad hwnnw'n cael ei gyflawni.

## Ymgymeriad trydydd parti

14. Gall person sydd wedi cael hysbysiad o fwriad i gyflwyno hysbysiad cydymffurfio, hysbysiad adfer neu gosb ariannol amrywiadwy gynnig ymgymeriad trydydd parti i'r rheoleiddiwr o ran pa gamau fydd yn cael eu cymryd gan y person hwnnw er budd trydydd parti sydd wedi'i effeithio gan y toriad o gyfyngiad yn y Rheoliad.

15. Fel arfer, byddai ymgymeriad trydydd parti yn opsiwn priodol pan welir bod niwed i bobl neu gymunedau lleol. Gall niwed gynnwys unrhyw:

- amwynderau a gollir;
- niwsans;
- difrod i weithgarwch economaidd lleol.

16. Er enghraifft, gallai'r mesurau a gynigir mewn ymgymeriad trydydd parti:

- wneud iawn am y niwed trwy ddarparu neu wneud gwelliannau i'r amgylchedd neu'r amwynderau lleol;
- cynnwys talu iawndal ariannol.



## **Hysbysiad o Gosb am Ddiffyg Cydymffurfio**

17. Gall hwn gael ei gyflwyno gan reoleiddiwr yn dilyn diffyg cydymffurfio â hysbysiad adfer, hysbysiad cydymffurfio neu ymgymeriad trydydd parti. Mae swm y gosb yn seiliedig ar y costau y mae'r person sy'n torri Rheoliad yn osgoi eu talu trwy beidio â chydymffurfio â'r hysbysiad gwreiddiol. Os yw'r hysbysiad neu'r ymgymeriad wedi'i anwybyddu'n gyfan gwbl, y gosb fydd 100% o'r costau a gafodd eu hosgoi, ond os cydymffurfiwyd yn rhannol â'r hysbysiad, bydd y gosb yn cael ei lleihau yn unol â hyn.

## **Hysbysiadau adennill costau gorfodi**

18. Gall rheoleiddiwr gyflwyno hysbysiad adennill costau gorfodi i adennill costau penodol wrth osod sancsiwn. Cyfyngir y pŵer hwn i gosbau ariannol amrywiadwy, hysbysiadau cydymffurfio, hysbysiadau adfer neu hysbysiadau atal. Bydd y rheoleiddiwr yn cadw unrhyw arian a godir trwy'r darpariaethau adennill costau.

## **Refeniw o gosbau**

19. Telir yr holl refeniw o gosbau yn Lloegr, heblaw am y rhai hynny sy'n ymwneud â hysbysiadau adennill costau gorfodi, ei dalu i mewn i gronfa gyfunol y Llywodraeth ac nid yw ar gael i'r rheoleiddwyr sy'n eu gosod. Yng Nghymru, caiff ei dalu i gronfa gyfunol Cymru.

## **Safonau a'r baich profi**

20. Er mwyn defnyddio cosb ariannol benodedig, cosb ariannol amrywiadwy, hysbysiad cydymffurfio neu hysbysiad adfer, rhaid i'r rheoleiddiwr fod yn fodlon ar y cydbwysedd tebygolrwydd bod cyfyngiad yn y Rheoliad wedi'i dorri.
21. Er mwyn cyflwyno hysbysiad atal, rhaid i'r rheoleiddiwr gredu'n rhesymol bod y gweithgaredd yn achosi (neu'n debygol o achosi) niwed difrifol a bod y gweithgaredd hwnnw'n ymwneud â (neu'n debygol o ymwneud â) thorri cyfyngiad yn y Rheoliad.
22. Er mwyn cynnig ymgymeriad gorfodi, rhaid bod gan y rheoleiddiwr sail resymol dros amau bod y person wedi torri cyfyngiad yn y Rheoliad.
23. Saif y baich profi ar ysgwyddau'r rheoleiddiwr. Mae hyn yn gofyn i'r rheoleiddiwr ddarparu tystiolaeth bod cyfyngiad yn y Rheoliad wedi'i dorri, yn hytrach na gorfodi'r unigolyn neu fusnes a gyhuddwyd i ddangos ei fod yn cydymffurfio.

## **Hysbysiadau a sylwadau**

24. Cyn cyflwyno cosb ariannol benodedig, cosb ariannol amrywiadwy, hysbysiad cydymffurfio neu hysbysiad adfer, rhaid i'r rheoleiddiwr gyflwyno "hysbysiad o fwriad" yn gyntaf sy'n nodi'r hyn a gynnigir. Pan dderbynnir hysbysiad o fwriad, bydd gan y person yr hawl i gyflwyno sylwadau a gwrthwynebiadau ysgrifenedig i'r rheoleiddiwr o fewn 28 diwrnod ynghylch y cynnig i osod y sancsiwn. Rhaid i'r rheoleiddiwr wedyn benderfynu a fydd yn gosod y sancsiwn (gydag addasiad neu beidio) neu i osod sancsiwn gwahanol.

Os bydd y rheoleiddiwr yn penderfynu y dylid parhau i gyflwyno sancsiwn, rhaid iddo wedyn gyflwyno hysbysiad terfynol a fydd yn nodi'r sancsiwn, gwybodaeth am sut i apelio a chanlyniadau methu â chydymffurfio ag unrhyw ofynion.

## Apeliadau

25. Gellir apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn erbyn:

- Cosbau ariannol penodedig;
- Cosbau ariannol amrywiadwy;
- Hysbysiadau cydymffurfio;
- Hysbysiadau adfer;
- Hysbysiadau atal;
- Penderfyniad i beidio â chyflwyno tystysgrif cwblhau ar gyfer hysbysiad atal neu ymgymeriad gorfodi;
- Cosbau am ddiffyg cydymffurfio;
- Hysbysiadau adennill costau gorfodi.

26. Caiff pob hysbysiad (heblaw am hysbysiadau atal) ei atal dros dro yn ystod y broses apelio.

27. Gall y Tribiwnlys Haen Gyntaf, o ran gosod gofyniad neu gyflwyno hysbysiad:

- a. ddileu'r gofyniad neu'r hysbysiad;
- b. cadarnhau'r gofyniad neu'r hysbysiad;
- c. amrywio'r gofyniad neu'r hysbysiad;
- d. cymryd camau tebyg i'r rhai y gallai'r rheoleiddiwr eu cymryd o ran y weithred neu anweithred sydd wedi arwain at y gofyniad neu'r hysbysiad;
- e. rhoi'r penderfyniad ynglŷn â chadarnhau'r gofyniad neu'r hysbysiad, neu unrhyw fater sy'n ymwneud â'r penderfyniad hwnnw, yn nwylo'r rheoleiddiwr.

## Iawndal

28. Pan fydd hysbysiad atal wedi'i gyflwyno, gallai'r rheoleiddiwr wneud iawn â pherson os yw'r person hwnnw, o ganlyniad i gyflwyno'r hysbysiad neu wrthod rhoi tystysgrif cwblhau, wedi dioddef colled, a:

- Bod y rheoleiddiwr yn dileu neu'n diwygio'r hysbysiad atal am fod y penderfyniad i'w gyflwyno wedi bod yn afresymol neu os oedd unrhyw gam a nodwyd yn yr hysbysiad yn afresymol;
- Bod y rheoleiddiwr yn mynd yn groes i'w oblygiadau statudol;
- Bod y person yn apelio'n llwyddiannus yn erbyn yr hysbysiad atal a bod y Tribiwnlys Haen Gyntaf yn canfod bod cyflwyno'r hysbysiad wedi bod yn afresymol; neu
- Fod y person yn apelio'n llwyddiannus yn erbyn y gwrthodiad i roi tystysgrif cwblhau a bod y Tribiwnlys Haen Gyntaf yn canfod bod gwrthodiad y rheoleiddiwr wedi bod yn afresymol.

29. O dan yr amgylchiadau hyn, dylai'r iawndal dalu am y golled, gan gynnwys costau eithriadol sy'n deillio o gyflwyno'r hysbysiad atal (er enghraifft, cyngor cyfreithiol neu arbenigol).

## **Cyhoeddusrwydd**

30. Bydd angen i reoleiddwyr gyhoeddi gwybodaeth flynyddol am achosion lle y gosodwyd sancsiynau sifil.